# CÔD YMDDYGIAD

**Côd ymddygiad Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd ('Yr Eglwys') ar gyfer gweithio gyda phlant, pobl ifainc ac oedolion bregus**

This document should be read alongside the Safeguarding Policy.

**Pwrpas**

Mae'r côd ymddygiad yma yn gosod allan yr ymddygiad a ddisgwylir gan holl weithwyr yr Eglwys (p'un ai yn weithiwr gyflogedig neu yn wirfoddolwr).

Bwriad y côd ymddygiad yma yw i helpu diogelu oedolion bregus, plant a phobl ifainc rhag camdriniaeth ac ymddygiad amhriodol oddi wrth rhai mewn safleoedd o ymddiriedaeth, ac i leihau y risg o chyhuddiadau di-sail.

**Rôl gweithwyr (cyflogedig a gwirfoddolwyr)**

Pan yn gweithio gyda phlant, pobl ifainc ac oedolion bregus, rydych yn gwneud hynny mewn safle o ymddiriedaeth dros yr Eglwys. Edrychir arnoch fel model rôl a rhaid ymddwyn yn briodol felly.

**Ymarfer Da**

- Ymdrin a phawb gydag urddas, pharch a thegwch, gan roi ystyriaeth priodol i fuddiannau, hawliau, diogelwch a lles unigolion.
- Gweithio mewn ffordd atebol, chyfrifol a thryloyw.
- Bod yn barod i herio ymddygiad annerbyniol ac i dderbyn her am y fath ymddygiad.
- Gwrando yn ofalus ar y rhai r'ych chi yn eu cynnal.
- Osgoi ymddwyn mewn ffordd gellid ei hystyried gan eraill fel bwlio, camdriniaeth emosiynol, aflonyddu (harassment), camdriniaeth corfforol, ysbrydol neu rhywiol (gan gynnwys cyswllt corfforol amhriodol fel chwarae garw neu iaith neu ystum amhriodol).
- Ceisiwch gyngor gan rhywun â phrofiad ehangach lle bo angen.
- Gweithiwch mewn amgylchedd agored - osgowch amgylchiadau preifat neu annweladwy.

- Dilynwch polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau ac adroddwch pob datguddiad, pryder, honiad ag amheuaeth i'r Swyddog Diogelu.
- Peidiwch gwneud addewidion amhriodol yn arbennig ynghylch cadw gwybodaeth yn gyfrinachol.
- Esboniwch i'r unigolyn beth ry'ch chi'n bwriadu gwneud a pheidiwch oedi i weithredu.

**Ymddygiad annerbyniol**

- Peidio ag adrodd pryderon neu oedi adrodd pryderon.
- Cymryd risg diangen.
- Unrhyw ymddygiad gellir ei hystyried yn fygythiol neu yn sarhaus mewn unrhyw ffordd.
- Datblygu perthnasau amhriodol.
- Ysmygu, yfed diod feddwol neu chymryd sylweddau anghyfreithlon.
- Ffafriaeth/gadael rhywun allan - dylid cefnogi ag annog pobl yn gyfartal.

**Torri'r Côd Ymddygiad**

Mewn achos o ymddygiad amhriodol bydd angen i swyddogion yr Eglwys gymryd camau disgyblu yn eich erbyn, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos, gall fod yn ofynnol i chi adael eich swydd neu rôl. Efallai bydd hefyd angen cyfirio'r mater i asiantaethau statudol megis yr heddlu a/neu adrannau gofal cymdeithasol plant neu oedolion yr awdurdod lleol neu DBS. Os daw achos i'ch sylw o dorri'r côd hon, dylech codi'ch pryderon gyda'r Swyddog Diogelu.

**Datganiad**

Rwy'n cytuno i gadw at y disgwyliadau a amlinellu'r yn y ddogfen hon a chadarnhaf fy mod wedi darllen y polisiau a berthyn i'm gwaith gyda grwpiau bregus.

Enw:______________________________________

LLofnod:___________________________________

Dyddiad:___________________________________